monmouthshire
sir fynwy

Cyngor Sir Fynwy

# Telerau ac Amodau Trwyddedau Parcio Preswylwyr (Ar/Oddi Ar y Stryd)

CYHOEDDWYD YN CHWEFROR 2024

## Telerau ac Amodau – Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| 1. Gwybodaeth Bwysig | 2 |
| 2. Cymhwystra Preswylwyr | 2 |
| 3. Perchnogaeth o'r Cerbyd | 2 |
| 4. Cymhwystra'r Cerbydau | 3 |
| 5. Cyfrif y Drwydded | 3 |
| 6. Dogfennau ar gyfer gwneud Cais | 3&4 |
| 7. Costau'r Drwydded | 4 |
| 8. Newid Cerbyd | 4 |
| 9. Cerbydau Dros Dro/Benthyg | 4 |
| 10. Ad-daliadau/Canslo | 5 |
| 11. Adnewyddu | 5 |
| 12. Gwaharddiadau Parcio | 5 |
| 13. Deiliaid Bathodyn Glas | 5&6 |
| 14. Gorfodaeth | 6 |
| 15. Trosglwyddo a Gwerthu Trwyddedau | 6 |
| 16. Diogelu Data | 6 |
| 17. Twyll | 7 |
| 18. Gohebu gyda ni | 7 |

## 1) Gwybodaeth Bwysig

- Mae ein Trwyddedau bellach yn Rhithwir sy'n golygu na fydd angen trwydded bapur arnoch mwyach sydd wedi'i harddangos yn eich ffenestr flaen. Mae manylion eich cerbyd a'ch trwydded bellach i gyd yn cael eu storio'n ddiogel ar declynnau llaw ein swyddog. Rydym yn ceisio lleihau ein hôl-troed papur a charbon; felly, ni roddir unrhyw Drwyddedau Papur.
- Wrth wneud cais am, adnewyddu, neu gynnal eich cyfrif trwydded, rydych yn cadarnhau eich bod yn deall, yn derbyn, ac yn dilyn y telerau ac amodau hyn.
- Rhaid i'r wybodaeth a ddarperir fod yn gywir. Mae'n drosedd gwneud datganiadau ffug yn fwriadol er mwyn cael trwydded.
- Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i wrthod neu dynnu trwyddedau ar gyfer aelwydydd y canfyddir eu bod yn cam-drin y cynllun.

## 2) Cymhwystra Preswylwyr

**Sylwch, oherwydd argaeledd cyfyngedig, bydd Trwyddedau Preswylwyr ond yn cael eu rhoi ar sail un i bob cartref**

Os ydych yn byw mewn ardal sydd â chyfyngiadau parcio trwydded preswylwyr ar y stryd, ac nid oes gennych unrhyw gyfleusterau parcio oddi ar y stryd ar gael i chi, neu os ydych yn byw ger maes parcio Talu ac Arddangos Cyngor Sir Fynwy, efallai y byddwch yn gymwys i gael trwydded parcio ar gyfer preswylydd lle bo'n berthnasol ac yn dibynnu ar argaeledd.

Os ydych yn medru parcio oddi ar y stryd eisoes fel Tramwyfa, Parcio Preifat, neu le parcio wedi'i neilltuo gyda'ch eiddo, nid oes gennych hawl i gael trwydded. Os oes gan eich cartref fwy nag un car a lle ar gyfer un cerbyd yn unig ar eich tramwyfa/parcio preifat, yn anffodus nid ydych yn gymwys i gael Trwydded Preswylydd. Mae hyn oherwydd yr argaeledd cyfyngedig.

Nid oes unrhyw sicrwydd y bydd argaeledd ar adeg y cais. Nid yw Trwyddedau Preswylwyr yn gwarantu lle parcio ond maent yn helpu i reoli a blaenoriaethu mannau parcio ar gyfer y rhai sy'n byw'n llawn amser yn yr ardaloedd hynny. Nid yw trwydded yn gwarantu lle i chi barcio eich cerbyd, dim ond os oes lle ar gael y mae'n rhoi caniatâd i chi wneud hynny yn y parth a neilltuwyd.

Nid oes gan Gyngor Sir Fynwy unrhyw rwymedigaeth statudol i ddarparu lleoedd parcio i drigolion.

## 3) Perchnogaeth o'r Cerbyd

Rhaid i chi fod yn geidwad cofrestredig y cerbyd yr ydych yn ei enwebu. Dangosir hyn gyda'ch enw a'ch cyfeiriad yn ymddangos ar y dogfennau sy'n ymwneud â'r cerbyd yr ydych yn gwneud cais am hawlen ar ei gyfer. Tra gall parau sy'n cyd-fyw neu barau priod rannu'r defnydd o gerbyd, dylid gwneud y cais am drwydded barcio yn enw'r ceidwad cofrestredig. Os nad yw hyn yn bosibl, gellir ystyried eithriadau yn ôl disgresiwn rheolwr yr adran.

Os oes gennych gar cwmni, byddwn angen llythyr gan eich cwmni ynghyd â dogfennaeth cerbyd fel yr amlinellir yn adran 6 o'r telerau ac amodau hyn.

## 4) Cymhwystra'r Cerbydau

Rhaid i'ch cerbyd fod o'r math a'r dosbarth a nodir yn y rheoliadau. Y dosbarthiadau o gerbydau yw:

1. Cerbyd teithwyr a adeiladwyd neu a addaswyd ar gyfer cludo dim mwy na 12 o deithwyr (ac eithrio'r gyrrwr)
2. Cerbyd heb fod yn uwch na 2.28m.
3. Cerbyd heb fod yn hwy na 5.25m o hyd.

Ym mhob achos mae'n rhaid i led y cerbyd fod o'r fath fel ei fod wedi'i barcio'n gyfan gwbl o fewn terfynau'r man parcio. Os canfyddir cerbyd sydd wedi parcio y tu hwnt i'r man parcio swyddogol, gall hyn arwain at dderbyn Hysbysiad Tâl Cosb. Nid yw trelars/carafanau yn gymwys ar gyfer trwyddedau parcio ar gyfer preswylwyr.

## 5) Cyfrif y Drwydded

Mae'n ofynnol i gwsmeriaid greu a rheoli eu cyfrif trwydded barcio a lanlwytho'r ddogfennaeth gywir i'r porth diogel.

Os nad oes gennych rhyngrwyd gartref neu sganiwr, mae gan ein hybiau a llyfrgelloedd rhyngrwyd rhad ac am ddim y gallwch ei ddefnyddio. Gallant hefyd eich cynorthwyo i sganio unrhyw ddogfennau ar gyfer eich cais.

Fodd bynnag, os nad oes gennych gyfeiriad e-bost neu os nad ydych yn teimlo'n gyfforddus yn defnyddio ein porth ar-lein, gallwn brosesu trwydded i chi gan ddefnyddio ein swyddogaeth cefn swyddfa. Siaradwch â'n tîm, canolfan gyswllt neu hybiau lle gallant roi cyngor i chi ar y wybodaeth sydd ei hangen i fodloni'r cais hwn. Sylwch, mae hyn yn golygu na fydd gennych gyfrif ar-lein a bydd angen i chi ffonio ein harianwyr i dalu am eich trwydded. Eich cyfrifoldeb chi hefyd fydd sicrhau eich bod yn dilyn yr un peth â'r pwyntiau isod.

Fel deiliad Cyfrif y Drwydded, eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau:

- Bod eich cyfrif a'ch manylion cyswllt yn gyfredol a bod yr holl wybodaeth a ddarparwyd yn gywir.
- Bod eich trwydded yn ddilys ac yn cael ei hadnewyddu ar amser.
- Defnyddir eich trwydded yn unol â'r amodau defnyddio.

## 6) Dogfennau ar gyfer gwneud Cais

Sylwch, er bod angen y dogfennau hyn ar y cais cyntaf, rydym yn cadw'r hawl i ofyn am ddogfennau wedi'u diweddaru gan breswylwyr sy'n adnewyddu eu cais.

Bydd ceisiadau am drwydded i breswylwyr yn cael eu gohirio os cyflwynir ceisiadau heb y dystiolaeth gywir. Rhoddir trwyddedau ar sail y cyntaf i'r felin oherwydd argaeledd cyfyngedig, ac felly gallai cyflwyno cais anghyflawn olygu eich bod yn colli'r cyfle i gael trwydded.

### Prawf o breswylfa (fel isod ar gyfer ceisiadau newydd)

Byddwn yn derbyn un o'r dogfennau a restrir isod. Rhaid i'r ddogfen ddangos yr enw a'r cyfeiriad a ddarperir yn y cais.

- Bil y Dreth Gyngor neu Fil Dŵr (mae'n rhaid mai hwn yw'r bil olaf a gawsoch gan eich darparwr)
- Bil Cyfleustodau (nwy, trydan neu ffôn llinell dir) a dim mwy na 3 mis oed
- Trwydded Yrru gyfredol yn dangos cyfeiriad.
- Cytundeb Tenantiaeth Cyfredol y mae'n rhaid i chi a'ch landlord ei lofnodi.
- Llythyr Cwblhau Cyfreithiwr os prynwyd eich eiddo yn ystod y mis diwethaf.

**Prawf o Berchnogaeth Cerbyd (ar gyfer ceisiadau newydd/newid cerbyd)**

Dim ond copi o un o'r dogfennau a restrir isod y byddwn yn ei dderbyn. Rhaid i ddogfennau a ddarperir ddangos enw, cyfeiriad a rhif cofrestru cerbyd yr un ymgeisydd â'r cais.

- Dogfen Gofrestru Cerbyd (V5CW)
- Tystysgrif Yswiriant Modur Cyfredol
- Cytundeb Llogi/Prydlesu
- Bil Gwerthiant Swyddogol (os prynwyd y cerbyd yn ystod y mis diwethaf)
- Os ydych yn gyrru cerbyd cwmni, byddwn angen llythyr gan eich cyflogwr ar lythyr swyddogol o'r cwmni, yn cadarnhau mai chi sy'n berchen ar y cerbyd neu'n ei lesio ac mai chi yw unig geidwad a defnyddiwr y cerbyd. Byddwn hefyd angen i'ch cyflogwr ddarparu copi o ddogfen cofrestru'r cerbyd (V5CW) neu'r cytundeb prydles.

## 7) Costau'r Drwydded

Mae trwyddedau preswylwyr ar gael am gyfnodau o 12 mis yn unig. Maent yn unol â'n ffioedd a'n taliadau cymeradwy cyfredol.

## 8) Newid Cerbyd

Os byddwch yn newid eich cerbyd yn ystod dilysrwydd eich trwydded, rhaid i chi roi gwybod i ni ar unwaith drwy gyflwyno cais newid cerbyd ar eich cyfrif trwydded. Os oes gennych drwydded bapur o hyd, rhaid i chi ei dychwelyd atom. Anfonwch e-bost atom yn carparking@monmouthshire.gov.uk fel y gallwn eich cynghori ar sut i ddychwelyd y drwydded atom. Bydd gofyn i chi hefyd ddangos prawf o berchnogaeth ar gyfer eich cerbyd newydd. Disgrifir y dogfennau a dderbyniwn yn adran 6 o'r telerau ac amodau hyn. Ni chodir tâl am y newid cerbyd cyntaf mewn unrhyw flwyddyn drwydded. Fodd bynnag, codir tâl am newidiadau dilynol ar gyfradd o £10.00 y drwydded. Gall methu â rhoi gwybod i ni am newid cerbyd arwain at roi Hysbysiad Tâl Cosb.

## 9) Cerbydau Dros Dro/Benthyg

Os yw eich cerbyd trwydded preswylydd gweithredol yn cael ei drwsio neu ei wasanaethu, gallwch osod y cerbyd a ddarperir gan y garej, y siop atgyweirio neu'r cwmni yswiriant yn ei le dros dro. Rhaid i chi roi gwybod i ni ar unwaith am hyn. Dim ond 1 cerbyd dros dro/benthyg all feddu ar drwydded a bydd hyn am gyfnod o 14 diwrnod ar y tro.

Bydd angen i chi e-bostio carparking@monmouthshire.gov.uk i awdurdodi hyn.

## 10) Ad-daliadau/Canslo

Ni allwn roi ad-daliadau ar ein Cynllun Trwydded Preswylwyr. Mae hyn oherwydd bod canran uchel o'r drwydded hon yn dâl gweinyddol.

Rhaid canslo'r drwydded os bydd unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol yn codi:

a) nid ydych yn byw yn yr eiddo mwyach

b) os ydych yn gwerthu neu'n gwaredu'r cerbyd a ddangosir ar y drwydded

c) bod y Cyngor yn tynnu'r drwydded yn ôl, neu os yw'n peidio â bod yn ddilys am unrhyw reswm arall.

## 11) Adnewyddu

Eich cyfrifoldeb chi yw adnewyddu eich trwydded. Fe'ch cynghorir i wneud cais i adnewyddu eich trwydded o leiaf 14 diwrnod cyn iddi ddod i ben er mwyn gallu prosesu hyn mewn da o bryd. Caniatewch ddigon o amser i'r adnewyddiad gael ei brosesu cyn i'r drwydded bresennol ddod i ben.

Nid oes gennych hawl i ddefnyddio mannau parcio preswylwyr ar y stryd, na pharcio yn y maes parcio oni bai bod gennych drwydded barcio ddilys i breswylwyr. Os ydych wedi gwneud cais am drwydded, nid yw hyn yn rhoi unrhyw hawl i fuddion parcio.

## 12) Gwaharddiadau Parcio

Mae'n bosibl y cewch eich hysbysu am ataliadau parcio yn eich parth trwydded. Ar adegau pan fydd angen i ni ddarparu ar gyfer colli lle parcio, byddwn yn ysgrifennu atoch yn rhoi gwybod i chi am hyn ac yn cynnig trefniadau parcio eraill. Rhaid i chi beidio â pharcio lle mae arwyddion yn dweud bod parcio wedi'i atal. Rydym yn ceisio rhoi rhybudd i chi pan fydd hyn yn digwydd. Fodd bynnag, mewn argyfwng, gall hyn ddigwydd heb rybudd.

Gall mannau parcio gael eu hatal gan yr Heddlu neu rywun yr ydym yn rhoi caniatâd iddynt.

Mae'n rhaid i ddeiliaid Trwyddedau Preswylwyr ar gyfer maes parcio iard y Bragdy, ar ddydd Mawrth ddefnyddio'r maes parcio Talu ac Arddangos agosaf nesaf sydd ar gael ar y diwrnod hwn. Mae hyn oherwydd bod y maes parcio hwn yn cau ar ddydd Mawrth er mwyn hwyluso Marchnad y Fenni. Gallwn eich sicrhau bod ein swyddogion yn ymwybodol o gerbydau gyda thrwyddedau iard y Bragdy sydd wedi parcio mewn meysydd parcio eraill ar y diwrnod hwn ac ni fyddant yn cymryd camau gorfodi yn eu herbyn.

## 13) Deiliaid Bathodyn Glas

### Man Parcio YN UNIG ar gyfer Deiliaid Trwydded Preswylwyr

Nid ydym yn cynnig gostyngiadau i Ddeiliaid Bathodyn Glas. Os ydych yn ddeiliad Bathodyn Glas a bod gan eich eiddo fan parcio Deiliad Trwydded Preswylydd yn Unig ar y stryd, ac nad oes gennych unrhyw le parcio oddi ar y stryd ar gael, efallai y byddwch yn gymwys i gael trwydded barcio i breswylwyr lle bo'n berthnasol ac yn dibynnu ar argaeledd – nid yw arddangos eich bathodyn glas yn eich gwneud yn gymwys i barcio mewn Parth Deiliaid Trwydded Preswylwyr yn Unig. Os ydych yn defnyddio un o feysydd parcio ein Cyngor, ni fydd angen Trwydded Preswylydd ar ddeiliad Bathodyn Glas. Mae hyn oherwydd bod ein meysydd

parcio yn rhad ac am ddim i’w defnyddio gan ddeiliaid Bathodynnau Glas sy’n arddangos Bathodyn Glas dilys heb unrhyw gyfyngiadau amser. NID yw hyn yn cynnwys mannau parcio sy’n benodol ar gyfer Cerbydau Trydan.

**Man Parcio i ddeiliaid Trwyddedau Aros a Phreswylwyr a Rennir.**

Nid ydym yn cynnig gostyngiadau i Ddeiliaid Bathodyn Glas. Os ydych yn ddeiliad Bathodyn Glas a bod gan eich eiddo fan parcio ar y stryd i Ddeiliaid Aros a Thrwyddedau Preswyl Amser a Rennir Cyfyngedig, ac nad oes gennych unrhyw le parcio oddi ar y stryd ar gael, mae gennych hawl i barcio yn y lle parcio a rennir am uchafswm o 3 awr gyda Bathodyn Glas dilys a’r cloc amser wedi’i osod i’r amser cywir. Os oes angen i chi barcio am fwy na’r uchafswm o 3 awr, efallai y byddwch yn gymwys i gael trwydded barcio i breswylwyr lle bo’n berthnasol ac yn dibynnu ar argaeledd. Os ydych yn defnyddio un o feysydd parcio ein Cyngor, ni fydd angen Trwydded Preswylydd ar ddeiliad Bathodyn Glas. Mae hyn oherwydd bod ein meysydd parcio yn rhad ac am ddim i’w defnyddio gan ddeiliaid Bathodynnau Glas sy’n arddangos Bathodyn Glas dilys heb unrhyw gyfyngiadau amser. NID yw hyn yn cynnwys mannau parcio sy’n benodol ar gyfer Cerbydau Trydan.

## 14) Gorfodaeth

Mae Swyddogion Gorfodaeth Sifil y Cyngor yn patrolio Parthau Parcio Preswyl yn rheolaidd. Rhaid i gerbydau barcio'n gyfan gwbl yn y mannau parcio sydd wedi'u nodi ar y ffordd neu yn y meysydd parcio. Rhaid parcio cerbydau fel nad ydynt yn achosi rhwystr i'r briffordd. Gall methu â gwneud hynny arwain at gamau gorfodi gan yr Heddlu neu'r Cyngor.

Tra bod cerbyd wedi'i barcio naill ai mewn Parth Parcio Preswylwyr Ar/Oddi ar y Stryd, ni ddylid ei ddefnyddio ar y cyd â gwerthu neu gynnig llogi unrhyw wasanaeth.

Gall cerbydau y gwelir eu bod wedi’u parcio heb drwydded ddilys, sy’n defnyddio man parcio gwahanol heb awdurdod neu’n torri rheoliadau parcio’r Cyngor, dderbyn Hysbysiad Tâl Cosb (PCN) o hyd at £70.

Ni fydd y Cyngor yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am ddifrod, lladrad, neu golled, neu i, unrhyw gerbyd neu ei gynnwys tra wedi parcio mewn Parth Parcio Preswylwyr.

## 15) Trosglwyddo a gwerthu trwyddedau

Nid yw Trwyddedau Preswylwyr yn drosglwyddadwy rhwng cerbydau ac yn ddilys yn unig ar gyfer y cerbyd a restrir. Os byddwch yn newid eich cerbyd, bydd angen diweddaru'r drwydded – ewch i Adran 8.

Ni allwch rannu, gwerthu na rhoi eich trwydded i unrhyw un arall. Rydym yn cadw'r hawl i gymryd camau yn erbyn unrhyw un y canfyddir ei fod yn prynu ar ran, yn gwerthu i, neu'n cynnig trwyddedau gwerthu i unrhyw un arall. Mae'r camau y gallwn eu cymryd yn cynnwys atal neu ddileu eich cyfrif trwydded yn barhaol.

## 16) Diogelu Data

Bydd Cyngor Sir Fynwy yn prosesu’r wybodaeth a ddarparwyd gennych yn y cais hwn yn unol â Deddfwriaeth Diogelu Data. I ddysgu mwy am sut rydym yn defnyddio eich data personol, ewch i'n gwefan i weld ein Hysbysiad Preifatrwydd: https://www.monmouthshire.gov.uk/your-privacy/

## 17) Twyll

Mae gan Gyngor Sir Fynwy ddyletswydd i ddiogelu'r arian cyhoeddus y mae'n ei weinyddu, ac i'r perwyl hwn gall ddefnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd gennych ar eich cais i atal a chanfod twyll. Gall hefyd rannu'r wybodaeth hon â chyrff eraill sy'n gyfrifol am archwilio neu weinyddu arian cyhoeddus at y dibenion hyn. Mae hyn yn rhan o'r Fenter Twyll Genedlaethol. Mae'n bosibl y byddwn yn cynnal gwiriadau awtomataidd i gadarnhau eich bod yn byw yn y cyfeiriad a ddarparwyd gennych. Mae hyn yn cynnwys gwirio'r gofrestr etholiadol a chofnodion y Dreth Gyngor. Am ragor o wybodaeth, ewch i'n gwefan i weld ein hysbysiad prosesu teg: https://www.monmouthshire.gov.uk/audit

## 18) Gohebu gyda ni

Gellir e-bostio unrhyw ohebiaeth/dogfennau i:

carparking@monmouthshire.gov.uk

Os bydd angen i chi ysgrifennu atom/dychwelyd dogfennau gwreiddiol, dylech eu postio at:

**Adran Parcio Ceir, Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA.**